

Tiwmorau'r ymennydd (sylfaenol) a metastasisau'r ymennydd mewn oedolion

11 Gorffennaf 2018

Tiwmorau'r ymennydd: y gofal y dylech ei ddisgwyl

Tiwmor yr ymennydd yw tiwmor sy'n effeithio ar yr ymennydd. Gall tiwmorau'r ymennydd fod yn falaen (canser) neu'n anfalaen. Bob blwyddyn mae tua 10,000 o bobl yn cael diagnosis o diwmor sylfaenol yr ymennydd, sy'n golygu y dechreuodd y tiwmor yn eu ymennydd. Weithiau gall canser mewn rhan arall o'r corff ledaenu i'r ymennydd, a elwir yn diwmor eilaidd yr ymennydd neu fetastasis. Mae llawer o wahanol fathau o diwmorau'r ymennydd a gallant achosi amrywiaeth eang o symptomau yn dibynnu ar y math o diwmor, lleoliad y tiwmor, o ble ddaeth y tiwmor, a yw'n fetastasis a pha mor gyflym y mae'n tyfu. Bydd y rhagolygon i bob person â thiwmor yr ymennydd yn wahanol. Oherwydd yr effeithir ar bawb yn wahanol, mae'r gofal a'r driniaeth sydd eu hangen ar bob person yn unigryw iddyn nhw.

Hoffem sicrhau y bydd y canllaw hwn yn gwneud gwahaniaeth i bobl â thiwmor yr ymennydd a'u teuluoedd drwy sicrhau'r canlynol:

- bod meddygon yn gwybod pa brofion a thriniaethau sy'n gweithio orau ar gyfer gwahanol fathau o diwmorau
- bod meddygon yn eich cynnwys yn llawn mewn penderfyniadau ar driniaethau, gan esbonio'r rhesymau o blaid ac yn erbyn pob opsiwn a chytuno ar gynllun triniaeth sydd orau i chi
- eich bod yn cael cymorth a chynghor sy'n diwallu eich holl anghenion – dylai hyn gynnwys cynghor ymarferol ar bethau fel cael help ychwanegol gartref a ph'un a allwch barhau i yrru
- bod eich teulu neu'ch gofalwr yn cael help i ddeall y newidiadau y gallent eu gweld yn digwydd i chi oherwydd tiwmor yr ymennydd, ac i ymdopi â nhw.

- eich bod yn cael yr archwiliadau cywir ar yr adegau cywir yn ystod eich triniaeth ac wedi hynny.

Gwneud penderfyniadau gyda'ch gilydd

Caiff y penderfyniadau gorau ynglŷn â thriniaeth a gofal eu gwneud ar y cyd. Dylai eich gweithwyr gofal iechyd proffesiynol roi gwybodaeth glir i chi, trafod eich opsiynau â chi a gwrando'n ofalus ar eich barn a'ch pryderon.

Er mwyn eich helpu i wneud penderfyniadau, ystyriwch:

- Beth sydd bwysicaf i chi?
- Beth rydych am ei gael allan o unrhyw driniaeth?
- Beth sy'n eich pryderu fwyaf – a oes risgiau neu anfanteision i'r driniaeth sy'n peri mwy o bryder i chi na rhai eraill?
- Sut y bydd y driniaeth yn effeithio ar eich bywyd o ddydd i ddydd?
- Beth fydd yn digwydd os nad ydych am gael triniaeth?

Os na allwch ddeall y wybodaeth a roddir i chi, dywedwch hynny wrth eich gweithiwr gofal iechyd proffesiynol.

Darllenwch ragor am [wneud penderfyniadau am eich gofal](#).

Ble y gallaf gael rhagor o wybodaeth?

Mae gan [NHS Choices](#) ragor o wybodaeth am diwmorau'r ymennydd.

Gall y sefydliadau isod roi rhagor o gyngor a chefnogaeth i chi.

- [Brainstrust – pobl canser yr ymennydd](#), 01983 292 405
- [Elusen Tiwmor yr Ymennydd](#), 0808 800 0004
- [Gweithredu dros Epilepsi](#), 0808 800 5050
- [Sefydliad yr Ymennydd a'r Asgwrn Cefn](#), 0808 808 1000

Nid yw NICE yn gyfrifol am gynnwys y gwefannau hyn.

I rannu profiad o ofal rydych wedi'i gael, cysylltwch â'ch grŵp [Gwarchod Iechyd](#) lleol.

Gwnaethom ysgrifennu'r canllaw hwn gyda phobl y mae tiwmorau'r ymennydd wedi effeithio arnynt a staff sy'n eu trin a'u cefnogi. Mae'r holl benderfyniadau yn seiliedig ar yr ymchwil orau sydd ar gael.

ISBN: 978-1-4731-3002-9